

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Iechyd Deintyddol Arberth

Dyddiad yr arolygiad: 30

Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mawrth 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?	19
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	20
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	21
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	23

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Iechyd Deintyddol Arberth yn 6 St James Street, Arberth, Sir Benfro, SA67 7BX, ar 30 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod Practis Iechyd Deintyddol Arberth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol â digon o gyfarpar. Roedd staff yn gwrtais, yn broffesiynol ac yn darparu safonau uchel o ofal a thriniaeth i'w cleifion.

Fodd bynnag, gwelsom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau/safonau ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yn darparu gofal a thriniaeth ddeintyddol diogel ac effeithiol
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda ac roeddent yn lân o safbwynt hylendid
- Roedd yn darparu amgylchedd dymunol i gleifion
- Roedd safon y dogfennau yn rhagorol
- Rhoddid amrediad da o wybodaeth i gleifion i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai hanesion meddygol cychwynnol gael eu llofnodi a'u dyddio gan gleifion
- Dylid sicrhau bod adroddiadau am sganiau'n cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion
- Dylid lleoli biniau mewn mannau priodol yn y practis er mwyn lleihau'r risg o ddamweiniau posibl i gleifion

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Practis deintyddol preifat yn unig yw Practis Iechyd Deintyddol Arberth.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, pedair nyrs ddeintyddol (gydag un ohonynt dan hyfforddiant), derbynnydd a rheolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat, gan gynnwys tawelu ymwybodol¹.

¹ Tawelu ymwybodol yw gweithdrefn lle defnyddir meddyginiaeth i dawelu'r claf er mwyn gallu cyflawni triniaeth ddeintyddol. Drwy gydol y weithdrefn hon, fodd bynnag, mae cyswllt llafar â'r claf yn cael ei gynnal.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn hapus iawn gyda'r amrediad o wasanaethau a ddarperid gan y practis. Roedd yr amgylchedd y tu mewn yn ddymunol ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel.

Gwnaethom arsylwi ar gleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm cyfan y practis wrth ymweld â'r practis. Roedd sylwadau'r cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a ddarperir ym Mhractis Iechyd Deintyddol Arberth.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn casglu eu safbwyntiau am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y practis.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 19 o holiaduron wedi eu cwblhau; derbyniwyd cymysgedd da o holiaduron gan gleifion gymharol newydd yn y practis (y rhai hynny a oedd wedi bod yn gleifion yno am lai na dwy flynedd) a chleifion tymor hir yn y practis (y rhai hynny a oedd wedi bod yn gleifion yno am fwy na dwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Hapus iawn gyda lefel y gwasanaeth a ddarperir gan y deintydd a'r staff"

"Tîm gwyb a gwasanaeth proffesiynol iawn"

"Yn hapus iawn fel claf yma"

"Rwy'n hapus iawn ar y gwasanaeth a ddarperir"

Cadw'n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach. Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael yn y practis, a oedd yn

golygu bod gan gleifion fynediad digonol at wybodaeth yn y mannau aros ac yn ystod eu hymgyngoriadau a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd rhestrau prisiau ar gael i'w gweld yn glir yn nhaflen wybodaeth y practis ac yn y man aros – a oedd yn golygu ei bod yn hawdd i gleifion fynd at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ddeintyddol ei gostio.

Roedd arwyddion 'dim ysmegu' wedi'u harddangos yn glir mewn mannau strategol o amgylch y practis, a oedd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd sylwadau a roddwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn canmol y staff yn cynnwys y canlynol:

"Bob amser yn cael fy nghyfarch gan staff cwrtais a chymwynasgar"

"Dwli ar bob aelod o staff, rwy'n mwynhau dod i fy archwiliadau a dweud y gwir"

Fe'n hysbyswyd gan staff fod trafodaethau preifat dros y ffôn yn cael eu cynnal yn y swyddfa yng nghefn y dderbynfa. Yn ogystal, dywedodd rheolwr y practis y byddai cleifion sy'n cyrraedd y practis sy'n dymuno cael trafodaeth breifat yn cael eu cludo i ystafelloedd eraill sydd ar gael yn y practis.

Roedd pob ymgynghoriad yn cael ei gynnal y tu ôl i ddrysau caeedig a oedd yn hybu preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel yn y practis, ac roedd y systemau TG ar waith wedi'u diogelu'n briodol. Gwelsom fod manylion y deintyddion yn y practis ac oriau agor y ddeintyddfa yn cael eu harddangos yn briodol ac mewn mannau amlwg.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddo.

Nododd yr holl ymatebion yn yr holiaduron a gwblhawyd fod cost eu triniaeth yn cael ei hesbonio iddynt bob tro, gyda nifer fach o gleifion yn dweud wrthym nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

Gofal amserol

Cawsom ein hysbysu gan staff y byddai staff y dderbynfa yn dweud wrth gleifion am unrhyw oedi o fwy na phum munud i'w hapwyntiadau.

Dywedodd pedwar o'r 19 o gleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Gwelsom fod rhifau cyswllt mewn argyfwng y tu allan i oriau yn cael eu harddangos ar boster yn y ffenestr ac ar wefan y practis.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl gleifion ond un a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Yn y sampl o gofnodion a welsom yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi bod yr holl ddogfennau'n dangos yn glir bod dewisiadau o ran triniaethau wedi'u rhoi i gleifion yn ystod eu hymgynghoriadau. Roedd gan gleifion fynediad at wybodaeth ynglŷn â sut i ofalu am eu dannedd a deintgig ar ôl apwyntiadau a rhyngddynt.

Hawliau pobl

Roedd toiledau dynodedig i ddynion a menywod yn y practis. Yn ogystal, roedd toiled anabl neillryw – ac roedd arwyddion eglur ar gyfer pob toiled ac roeddent i gyd yn lân iawn. Roedd hefyd toiled i staff. Roedd polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y practis. Roedd dwy ffordd o fynd i mewn i'r adeilad. Un ffordd oedd drwy'r prif fynedfa / y dderbynfa, a gellir mynd drwy'r ail fynedfa yn uniongyrchol o'r maes parcio. Byddai'n rhaid hysbysu staff pe bai cleifion yn dymuno defnyddio'r fynedfa a oedd yn arwain o'r maes parcio. Roedd digonedd o leoedd parcio ar gael i gleifion. Roedd dwy o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear, ac roedd trydedd ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf. Fe'n hysbyswyd bod cleifion ag anawsterau symudedd bob amser yn cael eu gweld yn un o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear. Roedd pob drws a mynedfa i'r toiledau yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â chwynion a phryderon. Gwelsom gofnodion o gwynion/pryderon a oedd wedi'u derbyn gan y practis, a chofnodwyd yr ymatebion perthnasol i'r cwynion. Nodwyd bod yr holl adborth a dderbyniwyd gan y practis yn cael derbyn sylw mewn ffordd adeiladol. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth ynglŷn â sut i godi pryder neu gŵyn ar gael ym man aros y practis. Roedd blwch sylwadau/awgrymiadau hefyd yn y man aros fel bod modd i gleifion roi adborth.

Dywedodd mwy na thri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol, pe bai angen gwneud hynny.

Dywedodd oddeutu traean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn ymwybodol p'un a oedd y practis deintyddol yn gofyn am eu safbwyntiau am y gwasanaeth a ddarperir yno, er enghraifft, drwy holiaduron i gleifion. Argymhellwn fod y practis yn adolygu ei arferion cyfredol ynghylch hyrwyddo ei ddulliau sicrhau ansawdd ar gyfer derbyn adborth gan gleifion yn y practis. Fe'n hysbyswyd gan staff y practis eu bod yn cynnal arolygon bodlonrwydd cleifion a bod y canlyniadau'n cael eu rhoi ar eu gwefan a'u tudalen Facebook. Argymhellwn hefyd fod y wybodaeth hon yn cael ei gwneud yn hawdd i gleifion ei hadolygu yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis arolygu ei arferion cyfredol ynghylch hyrwyddo ei ddulliau sicrhau ansawdd.

Mae angen sicrhau bod adborth o arolygon bodlonrwydd cleifion ar gael i'r cleifion ei ddarllen yn y practis.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill, er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant cleifion a staff. Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd yr oedd angen eu gwella.

Roedd amgylchedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda, gyda phob ystafell driniaeth yn olau ac yn awyrog. Roedd yr ystafell ddadheintio hefyd yn cael ei chynnal a'i chadw i safon uchel iawn, roedd yn lân iawn o safbwynt hylendid ac yn hyrwyddo arferion diogel ac effeithiol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn ei farn ef, yn lân iawn. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob man yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag unrhyw beryglon amlwg. Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw i weithio'n dda. Roedd y cyfarpar yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd fel y cynghorwyd gan y gwneuthurwyr. Roedd gan y deintyddion a'r nyrsys deintyddol hyfforddiant cyfredol mewn amddiffyn rhag ymbelydredd.

Canfuom dystiolaeth i gadarnhau bod y practis wedi cymryd camau priodol i helpu i warchod iechyd, diogelwch a llesiant cleifion a staff. Gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn cadarnhau bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u

cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch priodol ar waith yn y practis. Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli mewn mannau allweddol gydag arwyddion tân priodol. Roedd cyfarpar tân wedi'i wasanaethau yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd contract cynnal a chadw ar waith ar ei gyfer. Roedd asesiadau risg tân hefyd wedi'u cynnal – roeddent o fewn eu dyddiad dod i ben ac yn ddilys. Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy iawn. Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un wedi cael ei adael mewn man cyhoeddus yn ystod ein harolygiad.

Atal a rheoli heintiau

Ar y cyfan, gwnaethom nodi bod yr amgylchedd y tu mewn yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel iawn, ac roedd yr holl ystafelloedd triniaeth, ystafelloedd dadheintio a mannau aros yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Gwnaethom, fodd bynnag, nodi bod y biniau yn yr ystafelloedd triniaeth yn sefyll yn rhydd ac y gallant beri risg posibl i blant wrth iddynt osod eu dwylo yn y biniau yn anfwriadol. Yn ogystal, gwnaethom nodi bod bin yn un o'r ystafelloedd triniaeth yn cael ei weithredu â llaw yn hytrach na throed. Gallai hyn o bosibl achosi croes-heintio. Trafodwyd y canfyddiadau hyn yn ystod ein sesiwn adborth, ac fe'n hysbyswyd y byddent yn derbyn y sylw priodol.

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.² Roedd yr ystafell ddadheintio'n lân iawn, wedi'i chyfarparu'n dda ac yn daclus. Gwelsom dystiolaeth yn y cofnodion a welsom fod y practis wedi cynnal archwiliadau cynhwysfawr rheolaidd o'i brosesau ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol

² Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol am ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

â'r dull gwaredu cywir. Roedd polisi offer miniog hefyd ar waith, ac yn rhoi arweiniad clir o ran y gweithdrefnau cywir i'w dilyn mewn perthynas ag anafiadau gan eitemau miniog.

Yr hyn y mae angen ei wella

Adolygu lleoliad y biniau yn yr ystafelloedd triniaeth

Darparu biniau a weithredir â throed yn yr ystafelloedd triniaeth

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith gan y practis yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm cyfan wedi cael yr holl hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn cwmpo/llewygu) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod systemau effeithiol ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys yn parhau i fod o fewn eu dyddiadau dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio pe bai argyfwng.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwnaethom nodi bod prosesau diogel ac effeithiol ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gwnaethom hefyd gadarnhau bod yr holl aelodau perthnasol o staff wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisiâu diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Roedd cofnodion hefyd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddiogelu oedolion a phlant. Yn ystod trafodaethau â'r staff, gwnaethom nodi y gellid gwneud gwelliannau wrth sicrhau bod unrhyw bryderon posibl ynglŷn â diogelu yn cael eu hatgyfeirio mewn modd gadarn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid atgyfeirio unrhyw faterion neu bryderon posibl o ran diogelu i'r sefydliadau priodol mewn modd cadarn.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel.

Roedd y practis yn ffodus o fod ag aelod o staff o chwaer bractis deintyddol y practis yn Herbranstons a oedd wedi derbyn hyfforddiant gwasanaethu/cynnal a chadw ychwanegol. Yn benodol, roedd yr unigolyn hwn yn gallu cynnal a chwblhau profion dyfeisiau cludadwy a gwasanaethu cyfarpar penodol megis y cadeiriau ystafell driniaeth. Roedd hyn o fudd enfawr i'r ddau bractis ac yn eu cynorthwyo i redeg yn rhwydd. Roedd y cywasgwyr a ddefnyddir yn y practis yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a gwelwyd y tystysgrifau.

Roedd ffeil ymbelydredd ar gael yn y practis a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth allweddol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn ystod ein hymweliad roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei hyrwyddo drwy ddefnyddio archwiliadau niferus. Roeddem yn falch o nodi bod archwiliadau a oedd yn nodi gwelliannau neu gamau gweithredu a oedd eu hangen yn derbyn sylw mewn da bryd.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwnaethom nodi ac edrych ar gofnodion a oedd yn dangos bod adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd sgriniau'r cyfrifiaduron i gyd yn ddiogel ac yn breifat er mwyn diogelu manylion cleifion. Roedd polisi diogelu data ar waith yn y practis.

Cadw cofnodion

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Roedd tystiolaeth glir yn cadarnhau bod y cofnodion clinigol yn cael eu cadw i safon uchel iawn - gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a llesiant cleifion. Roedd cofnodion cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd am bynciau megis opsiynau

triniaeth, costau, risgiau a manteision. Gwnaethom nodi nad oedd un cofnod yn cynnwys llofnod gan y claf ar gyfer yr hanes meddygol cychwynnol. Yn ogystal, ni allem ddod o hyd i adroddiad am orthopantomograff (sgan deintyddol) / sgan tomograffeg wedi'i gyfrifiaduro â chôn (sgan deintyddol) a oedd wedi'i gynnal. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod y darnau pwysig hyn o wybodaeth yn cael eu cofnodi yng nghofnodion pob claf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Bod pob claf yn rhoi llofnod ffurfiol a dyddiad ar yr hanesion meddygol cychwynnol, a bod hyn yn cael ei gofnodi'n ffurfiol yng nghofnodion cleifion.

Bod adroddiadau sganiau delweddu deintyddol pob claf ar gael yng nghofnodion cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.

Gwelsom fod llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir yn y practis. Canfuom dystiolaeth bod hwn yn bractis bach sy'n cael ei redeg yn dda iawn, gyda'r holl staff yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu gofal deintyddol effeithiol i gleifion.

Roedd amrediad eang o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar gael i gynorthwyo gyda'r gwaith o redeg y practis yn ddiogel ac yn rhwydd. Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Iechyd Deintyddol Arberth, ac mae'n cyflogi dau ddeintydd ychwanegol a thîm cyfeillgar a sefydlog o staff. Gwelsom fod amrywiaeth dda iawn o bolisiâu perthnasol ar waith gyda'r nod sylfaenol o sicrhau diogelwch cleifion a staff.

Canfuom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol da yn y practis hwn. Roedd rheolwr y practis yn weddol newydd yn ei swydd, ond roedd yn cael ei gefnogi'n dda iawn gan yr holl staff. Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff eu bod yn hapus yn eu swyddi, a gwnaethant dynnu sylw at y ffaith y byddai'r rheolwyr yn gwrando ar bob un o'u pryderon/sylwadau, ac y byddent yn derbyn sylw mewn da bryd.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Roedd cofnodion yn dangos bod y tîm staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol i'w swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn y practis. Roedd pob aelod o staff yn

cael arfarniad blynyddol. Roedd cofnodion o gyfarfodydd tîm yn dangos bod y practis yn awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y cleifion. Roedd staff yn eglur ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Roedd y tystysgrifau yswiriant indemniad gofynnol ar gael ac yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn arddangos eu tystysgrifau cofrestriad AGIC mewn lle amlwg fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Trafodwyd tystysgrifau AGIC a nodwyd eu bod yn gywir ac yn ddilys.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a [gwasanaethau gofal iechyd annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni welwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Iechyd Deintyddol Arberth

Dyddiad yr arolygiad: 30 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Iechyd Deintyddol Arberth

Dyddiad yr arolygiad: 30 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i'r practis arolygu ei arferion cyfredol ynghylch hyrwyddo ei ddulliau sicrhau ansawdd	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1	Gweithredwyd yn archwiliad chwarterol y practis ar gyfer ffurflenni adborth cleifion.	Rheolwr y practis – Liam	Cwblhawyd
Mae angen sicrhau bod adborth o arolygon bodlonrwydd cleifion ar gael i'r cleifion ei ddarllen yn y practis.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Wedi'i osod ar arddangosfa'r dderbynfa	Rheolwr y practis – Liam	Cwblhawyd
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Adolygu lleoliad y biniau yn yr ystafelloedd	Rheoliadau	Aildrefnu lleoliad y biniau fel sy'n briodol	Rheolwr y practis	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
triniaeth.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (6)	– eu gwneud yn ddiogel yn ôl yr angen	– Liam	
Darparu biniau a weithdreir â throed yn yr ystafelloedd triniaeth	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (6)	Mae gan y biniau eisoes bedalau a weithdreir â throed ym mhob man clinigol	Rheolwr y practis – Liam	Cwblhawyd
Rhaid atgyfeirio unrhyw faterion neu bryderon posibl o ran diogelu i'r sefydliadau priodol mewn modd cadarn.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3 a 8.5	Bydd sesiwn ddiweddarau gyda staff bob chwe mis yn ystod cyfarfodydd y practis er mwyn eu hatgoffa	Rheolwr y practis – Liam	Cwblhawyd
Bod pob claf yn rhoi llofnod ffurfiol a dyddiad ar yr hanesion meddygol cychwynnol, a bod hyn yn cael ei gofnodi'n ffurfiol yng nghofnodion cleifion	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1.1 a 4.1.2	Mae'r holl gleifion yn cwblhau hanes meddygol ar eu hymweliad cyntaf Staff y dderbynfa i ailwrio hyn	Rheolwr y practis – Liam	Cwblhawyd
Bod adroddiadau sganiau delweddu deintyddol pob claf ar gael yng nghofnodion cleifion	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Sticeri wedi'u cynhyrchu ar gyfer deintyddion, i'w gwneud yn hygyrch mewn ystafelloedd triniaeth, a'u gwirio gan ddeintyddion wrth gynnal	Deintyddion	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	4.1.1	radiograffau		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Liam Boulcott
Swydd: Rheolwr y Practis
Dyddiad: 01/02/18